## Once Upon a Time in a Forest

Yn ein hinsawdd wleidyddol bresennol, ymddengys fod trafodaeth am gadwraeth coedwigoedd wedi cael ei rhoi o'r neilltu o blaid materion amgylcheddol eraill sydd yn cael mwy o sylw, er nad yw hynny'n wir yn y Ffindir. Gan fod y Ffindir yn dibynnu'n drwm ar Goedwigoedd Masnachol, mae'r genhedlaeth newydd o brotestwyr wedi bod yn pwyso i gynyddu'r ganran o goedwigoedd sydd wedi'u cadw'n naturiol o'r 10% presennol nad ydynt yn fasnachol. Mae'r ddogfen yn ceisio dynoleiddio'r protestwyr fel pobl angerddol dros newid a chymuned, yn hytrach na phobl radical sy'n achosi trafferth. Mewn gwirionedd, mae'r ddogfen yn pwysleisio nad yw eu safbwynt yn radical o gwbl – "amddiffyn y gwan" yw'r cyfan, fel y nododd un protestiwr. Nid yw'r rhan fwyaf o'u gweithredoedd yn radical chwaith, fel y dengys y ffilm – gwelwn y grŵp yn cofleidio'r goedwig ac yn mwynhau'r eira, yn ymchwilio ac yn casglu data ar ei hardaloedd mwyaf bregus. Nid oes unrhyw wrthdaro dramatig rhwng canghennau'r llywodraeth a'r protestwyr, dim golygfeydd o helynt, dim ond pobl wedi'u huno gan yr un nod. Nid yw'n darlunio'r cwmnïau sy'n berchen ar y coedwigoedd masnachol fel rhai drwg – nid ydym yn gweld coed yn cael eu torri i lawr yn dreisgar – oherwydd mae'r ffilm yn dewis dangos pam y dylem deimlo'n euog am yr hyn nad ydym yn ei wneud, yn hytrach na'n gwneud i ni gasáu'r cwmnïau hynny.

Mae'r ddogfen yn dilyn Ida, 22 oed, wrth iddi ymuno â'r grŵp cadwraeth coedwigoedd 'Exhibition Rebellion Finland' ac yn cymryd rhan flaenllaw mewn ymchwil ar goedwigoedd lleol yn ogystal â chynllunio cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr cwmnïau a theithiau o amgylch coedwigoedd sydd wedi'u torri. Dyma ddogfen sy'n cael ei harwain yn gryf gan y cymeriadau, wrth i ni edrych ar y berthynas rhwng y protestwyr Ida a Minka a'u teuluoedd, a sut mae eu credoau wedi rhoi straen ar rai perthnasau ac wedi gwella eraill. Gwelwn Minka'n bondio gyda aelod o'r teulu wrth i ni ddysgu mai ei chymhelliant dros brotestio dros gadwraeth coedwigoedd yw er mwyn iddi allu profi llawenydd natur yn union fel y disgrifiodd ei pherthynas iddi wrth rannu atgofion, i adfer hynny. Ar y llaw arall, mae safiad heddychlon Ida yn achosi anghytundeb rhyngddi hi a'i thaid, sy'n gwrthwynebu cadwraeth ac yn credu yn hytrach o blaid y diwydiant coedwigo, ac y dylai Ida wrando ar ei hynafiaid yn hytrach na gwleidyddion a phrotestwyr. Mae'r ffilm yn taflu goleuni pellach ar y ffaith bod y genhedlaeth newydd yn fwy amrywiol nag erioed, wrth i Ida a Minka egluro i'r protestwyr eraill (gwrywaidd) bod yn rhaid iddyn nhw weithio'n galetach i ennill parch, ac na allan nhw ymddangos yn emosiynol neu'n orbryderus wrth eirioli, os am gael eu cymryd o ddifrif – gan fod y ddelwedd arferol o ddeallusrwydd yn dal i gael ei bortreadu fel dyn gwyn hŷn.
Dyma ddogfen sy'n gweithredu fel ffilm, gan nad yw'n pentyrru gwybodaeth arnoch na beio nac enwi unigolion penodol, ond yn hytrach yn gadael i'r protestwyr hyn egluro pam eu bod yn barod i aberthu eu rhyddid dros eu credoau, a hynny yn glyfar wrth ddangos i chi'r golygfeydd union y maent yn eu hamddiffyn – gan adael i chi ffurfio'ch barn eich hun. Daw'r ffilm I ben ar nodyn ysgafnach gyda llwyddiant bach i Ida, wrth i'w data ar fioamrywiaeth mewn coedwig leol gael ei dderbyn (sy'n golygu y gellir ei chadw), mae hyn yn helpu'r cyfarwyddwr i gyflawni'r nod o adael i'r gwyliwr deimlo'n obeithiol am y dyfodol – ac yn dangos sut y gallwn ni, fel unigolion, gael effaith ar y darlun mawr.

Defnyddia'r ffilm sinematograffi yn fedrus i fanteisio'n llawn ar y lleoliadau prydferth oedd ar gael ar gyfer ffilmio, gan dynnu sylw at harddwch coedwig pan gaiff ei gadael mewn heddwch, a faint o lawenydd ac ymdeimlad o gartref y mae'n ei ddod i Ida a Minka. Dechreuwn wrth ddilyn Ida wrth iddi gymryd rhan llai amlwg yn yr ymgyrch dros gadwraeth natur, gan ddefnyddio offer i ffocysgu yn agos i gael golwg well ar arwyddion o ddiraddio (a'r angen am gadwraeth) mewn coedwig leol. Mae'r cyfarwyddwr yn casglu lluniau tebyg ac yn eu gosod rhwng y golygfeydd, gan ganiatáu i ni weld saethiad safbwynt Ida. Felly, nid yn unig y dysgwn yr enw gwyddonol (binomial nomenclature) a'r term lleol am yr hyn a ddarganfydda, ond hefyd fe gawn ni weld yr hyn a allai fod yn ysgogiad iddi gymryd camau mor eithafol. Defnyddir cyferbyniad yn gelfydd hefyd i amlygu heddwch a diniweidrwydd ein coedwigoedd – yn bennaf drwy wrthgyferbynnu lluniau distaw o'r goedwig llonydd â'r golygfeydd swnllyd, gorlawn o fewn ffatri goed lle mae Ida a'i chriw'n mynd i ymchwilio. Unwaith eto, defnyddir cyferbyniad tuag at y diwedd, wrth i ni weld y grŵp yn mwynhau eu hunain mewn parti, gyda cherddoriaeth uchel a llethol, cyn i'r sain gael ei dorri'n sydyn gan luniau ohonynt allan ar genhadaeth mewn coedwig wedi'i gorchuddio gan eira. Nid yn unig y mae hyn yn dangos pa mor ddifrifol y maent yn cymryd y genhadaeth hon, ond mae'n dangos hefyd mai natur yw'r ddihangfa berffaith o fywyd bob dydd sy'n gallu ein llethu – lle y dylai pawb gael mynediad iddo ledled y Ffindir (a'r byd).
Defnyddir rhai technegau eraill hefyd, fel y saethidau statig llydan yn y 30 munud olaf i ddangos Ida wedi'I hamgylchynu gan natur, gan adael i'r amgylchedd symud o'i chwmpas – gan ymddangos bron fel cipolwg ar rywbeth a allai ddiflannu cyn bo hir. Defnyddir saethiad statig llydan arall i ddangos ymateb nain a thaid Ida i'w gweld ar y newyddion mewn protest, gan adael i'w wynebau siarad drostynt eu hunain – ei Thaid yn syllu ar y sgrin yn anfodlon, a'i Nain yn gwenu'n slei. Mae'r ffilm yn haeddu clod am ddefnyddio rhai technegau anarferol eraill hefyd – megis deunydd archif o brotestiadau cadwraeth coedwigoedd o 1979 a 1991 yn y Ffindir, gan ddangos bod hon wedi bod yn frwydr barhaus gan genedlaethau ifanc ers degawdau. Mae'n gwneud i ni fel cynulleidfa deimlo rhyw euogrwydd am fod mor anymwybodol o'r broblem ers cyhyd.Yn ogystal, defnyddir 'aspect ratio' 4:3 i fframio'r lluniau o'r goedwig yn hardd iawn – gan eu gwneud bron fel Polaroid nostalgic gan gynnig awgrym o hiraeth am rywbeth sy'n diflannu – ond mae hyn yn arbennig o glyfar tuag at y diwedd, gan fod un o'r golygfeydd olaf yn gweld y gymhareb agwedd yn ehangu unwaith eto i shot lydan, gan ddangos bod yr hyn yr oeddem yn ei dybio'n arddangosfa gan 'Exhibition Rebellion Finland' ar ei phen ei hun, mewn gwirionedd yn brotest fawr ar y cyd ac yn ymgyrch weithredol eang, egnïol a pharhaus.

Mae'r ddogfen hon yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth heb droi at feirniadaeth hallt na phopiwlistiaeth. Mae'n ein gwahodd i ailystyried ein rôl yn y frwydr dros gadwraeth – nid trwy orfodi euogrwydd, ond trwy gysylltiad dynol dwfn â'r byd naturiol. Mae'n ddarn cynnil, sensitif, ond grymus o sinema ddogfennol.